# Mae Cynllun Lesio Cymru yn agor drysau.

## Beth yw Cynllun Lesio Cymru?

Mae Cynllun Lesio Cymru yn gynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a reolir gan awdurdodau lleol. Mae'r cynllun yn rhoi cyfle i berchnogion eiddo lesio eu fflat neu eu tŷ i'w hawdurdod lleol am incwm rhent misol gwarantedig didrafferth.

Fe'i cynlluniwyd i wneud rhentu preifat yng Nghymru yn fwy hygyrch a fforddiadwy, gan gynnig cyfle i berchnogion eiddo fanteisio ar grantiau a chael incwm gwarantedig wrth ddarparu tai diogel, hirdymor a fforddiadwy i denantiaid.

### Manteision i berchnogion eiddo

- **Incwm rhent gwarantedig** didrafferth am hyd y les (ar y gyfradd Lwfans Tai Lleol perthnasol) – sy'n golygu na fydd unrhyw ôl-ddyledion rhent na chyfnodau pan fydd yr eiddo'n wag.
- **Grant o hyd at £25,000** i ddod â'r eiddo i safon rhentu.*
- **Grant o hyd at £5,000** i gynyddu sgôr ynni eich eiddo.*
- **Lesoedd rhwng 5 ac 20 mlynedd.**
- **Archwiliadau eiddo, atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw** (ar gyfer traul rhesymol i'r eiddo).
- **Rheolaeth lawn o'r eiddo a'r tenant** am oes y les.



**Chwiliwch Chynllun Lesio Cymru.**

**Cofrestrwch heddiw.**

***Yn amodol ar delerau ac amodau.**